Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

**Teitl:** **Gweithiwr Preswyl Plant – Effro gyda'r Nos**

**Lleoliad:** **Cartref Preswyl Plant**

**Cyfarwyddiaeth:** **Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Rhif y swydd:** **BGNEW**

**Cyflog:** **Gradd 5 - £28,624 - £31,586 (pro rata/y flwyddyn) (Lwfans Shifft Nos yn ychwanegol)**

**Oriau:** **28 awr**

**Contract:** **Parhaol**

**Crynodeb o'r swydd**

***Llunio Dyfodol Cartref Preswyl Plant Cyntaf Erioed Blaenau Gwent!***

A oes gennych chi angerdd dros gael effaith gadarnhaol ar fywydau plant a phobl ifanc agored i niwed? Os ydych chi'n rhywun sy'n ffynnu mewn amgylchedd tawel, ffocysedig, mae gennym gyfle cyffrous i chi ymuno â Chartref Preswyl Plant Cyntaf Erioed Blaenau Gwent fel Gweithiwr Preswyl Plant Effro gyda'r Nos. Helpwch i greu man meithringar a diogel lle gall plant orffwys a theimlo'n ddiogel – gan wybod eich bod chi yno i'w cefnogi drwy'r nos.

**Ynglŷn â'r rôl**

Fel Gweithiwr Preswyl Plant Effro gyda'r Nos, byddwch yn gyfrifol am sicrhau diogelwch a llesiant y plant a'r bobl ifanc yn ein gofal drwy'r nos. Mae'r rôl hanfodol hon yn gofyn i chi aros yn effro ac ymatebol, gan wneud gwiriadau rheolaidd a chynnig gofal pan fo angen. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r tîm i gynnal amgylchedd cynnes, diogel, sy'n ystyriol o drawma, gan sicrhau bod pob plentyn yn teimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi ac yn derbyn gofal.

Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle i chi ddatblygu perthynas ddofn, ymddiriedus gyda'r plant, gan gynnig cysur a sicrwydd iddynt yn ystod oriau tawel y nos. Byddwch yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynnal trefn arferol y cartref, o baratoi prydau syml a helpu gyda gofal personol i gadw'r cartref yn ddiogel ac yn daclus. P'un a ydych yn sicrhau bod yr eiddo'n ddiogel neu'n cyfrannu at brosesau cynllunio gofal, bydd eich gwaith yn rhan annatod o rediad esmwyth y cartref.

Y tu hwnt i'r cyfrifoldebau gofal uniongyrchol, mae'r rôl hon yn rhoi'r cyfle i chi fod yn rhan o wasanaeth sy'n torri tir newydd, gan lunio dyfodol gofal ym Mlaenau Gwent. Byddwch yn derbyn hyfforddiant a datblygiad parhaus, gan gynnwys ymarfer sy'n ystyriol o drawma, ac

yn dod yn rhan hanfodol o dîm sydd wedi ymrwymo i wella bywydau pobl ifanc agored i niwed.

**Amdanoch chi**

Rydym yn chwilio am unigolion tosturiol, ymroddedig sy'n deall pwysigrwydd darparu gofal cyson, tawel a gofalgar. Rydych chi’n rhywun sydd â gallu naturiol i greu awyrgylch cynnes, croesawgar ac sy’n gallu ymateb i anghenion plant a phobl ifanc gydag amynedd ac empathi. Rhan allweddol o’r rôl yw sicrhau diogelwch emosiynol a chorfforol plant yn ystod y nos, felly bydd angen i chi fod yn sylwgar, yn rhagweithiol, a bob amser yn barod i roi cymorth pan fo angen.

Rydych chi'n dod ag ymdeimlad dwfn o gyfrifoldeb gyda chi a'r gallu i beidio â chynhyrfu dan bwysau. P'un a yw'n delio ag argyfwng hwyr y nos neu'n syml bod yno ar gyfer plentyn sydd angen sicrwydd, rydych chi'n gwybod sut i drin sefyllfaoedd heriol gyda gofal a phroffesiynoldeb. Bydd gennych hefyd lygad craff am fanylion, gan sicrhau bod yr holl safonau diogelu, iechyd a diogelwch yn cael eu bodloni trwy gydol y nos.

**Amdanom ni**

Mae Cyngor Bwrdeisdref Sirol Blaenau Gwent yn gyffrous i fod yn agor ei Gartref Preswyl Plant cyntaf, gan gynnig safon newydd o ofal i blant a phobl ifanc agored i niwed. Rydym yn awdurdod lleol blaengar, sydd wedi ymrwymo i ddarparu gofal personol sy’n diwallu anghenion unigryw pob plentyn. Mae ein tîm yn frwd dros wneud gwahaniaeth gwirioneddol ym mywydau’r plant rydym yn gofalu amdanynt—ac rydym am i chi ymuno â ni ar y daith hon.

Rydym hefyd yn cydnabod mai ein gweithwyr yw ein hased mwyaf, a dyna pam rydym yn cynnig amgylchedd gwaith cefnogol a chynhwysol, ynghyd â buddion gwych sydd wedi'u cynllunio i'ch helpu i dyfu a llwyddo:

**Cyflog Cystadleuol:**
Rydym yn gwerthfawrogi eich profiad a'ch arbenigedd ac yn cynnig pecyn cyflog hynod gystadleuol.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol:**
Mwynhewch dawelwch meddwl gyda'n buddion pensiwn rhagorol.

**Dysgu a Datblygu Parhaus:**
Manteisiwch ar gyfleoedd hyfforddiant a datblygu i wella'ch gyrfa.

**Gwyliau Blynyddol hael:**
Manteisiwch ar lwfans gwyliau sylweddol i gefnogi eich cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.

**Amgylchedd Tîm Cefnogol:**
Gweithiwch o fewn diwylliant cydweithredol a chynhwysol sy'n gwerthfawrogi eich cyfraniadau.

**Yn Barod i Wneud Gwahaniaeth Parhaol?**
Os ydych wedi’ch cyffroi gan y posibilrwydd o fod yn rhan o’r gwasanaeth newydd arloesol hwn a helpu i drawsnewid bywydau plant a phobl ifanc, byddem wrth ein bodd yn clywed

gennych. Gwnewch gais heddiw a chymerwch y cam cyntaf tuag at fod yn rhan o rywbeth gwirioneddol arbennig—adeiladu dyfodol mwy disglair i blant ym Mlaenau Gwent.

Os hoffech gael trafodaeth anffurfiol, cysylltwch â: Josh O'Leary

**Cynhelir camau gwirio cyn cyflogi trylwyr yn ystod y broses recriwtio. Bydd gofyn i'r deiliad swydd gwblhau cais am Ddatgeliad o Gofnodion Troseddol.**

**Ar gyfer gwybodaeth am ail-gysylltu cyn-weithwyr, gweler Polisi Cyflog y Cyngor.**

**Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg, llenwch Ffurflen Gais Swyddi Cymraeg**

**Dyddiad Cau:** **27/03/2025 – 12:00am, hanner nos**
**Dyddiad Cyfweliad:** **I'w gadarnhau**